**Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn Lleol**
**a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2025 am 09:30 trwy gyfrwng Zoom**

**YN BRESENNOL**

Cynrychiolwyr y Cyflogwr:
Y Cynghorydd Bryan Apsley
Y Cynghorydd John Brynmor Hughes
Y Cynghorydd Gwynfor Owens (gadawodd am 10:55)
Dafydd Edwards, Trysorydd
Gareth Owens, Clerc yr Awdurdod a'r Swyddog Monitro

Aelodau'r Cynllun
Cymdeithas y Swyddogion Tân - Paul Kay
Cymdeithas yr Arweinwyr Tân - PSTC Stuart Millington
Cynrychiolydd y System Dyletswydd ar Alwad - Geraint Evans
Undeb y Brigadau Tân – Rebekah Uden (o 09:50)

Ymgynghorwyr
Dawn Docx, Prif Swyddog Tân
Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol
Aled Williams, Cronfa Bensiwn Dyfed
Kim Jeal, Arweinydd Technegol Pensiynau Tân

Mynychwyr
Steffan Wiliam, Cyfieithydd
Lisa Allington, Cynorthwyydd Gweithredol

**1 YMDDIHEURIADAU**

1.1 Cynigiwyd ymddiheuriadau a'u derbyn ar gyfer Beccy Marfleet a Terry Ledden.

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

2.1 Nid oedd datganiadau o fuddiant i'w cofnodi.

**3 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

3.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Hydref 2024 fel cofnod gwir a chywir.

**4 CYLCH GWAITH - I'W ADOLYGU**

4.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur y Cylch Gwaith arfaethedig i'r Aelodau ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26.

4.2 Cafodd yr aelodau eu hatgoffa o gyfansoddiad a phwrpas y Bwrdd Pensiwn Lleol, a'r ffaith mai Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) oedd Rheolwr y Cynllun. Nododd y PSTC MacArthur fod gan rai Byrddau Pensiwn Lleol eraill gadeirydd annibynnol yn ogystal â nifer cyfartal o gynrychiolwyr y cyflogwr a'r gweithwyr, ac y gallai hyn fod yn werth ei ystyried.

4.3 Dywedodd y Cadeirydd fod aelodaeth y Bwrdd Pensiwn Lleol wedi cael ei hadolygu tua 18 mis yn gynharach a bod nifer yr aelodau wedi cael ei gynyddu bryd hynny. Teimlwyd bod hyn wedi bod o fudd i'r Bwrdd Pensiwn Lleol o ran sicrhau gwell presenoldeb.

4.4 Dywedodd y Cadeirydd ymhellach ei fod yn teimlo nad oedd angen penodi cadeirydd annibynnol ar hyn o bryd oherwydd y newidiadau posibl i lywodraethu a allai effeithio ar aelodaeth y Bwrdd Pensiwn Lleol yn ystod y 12 i 24 mis nesaf.

4.5 Nododd Gareth Owens fod deddfwriaeth newydd ar gyfer y ffordd y mae cynlluniau pensiwn yn cael eu rhedeg hefyd yn cael ei thrafod yn y llywodraeth ac y gallai hyn hefyd effeithio ar aelodaeth y Bwrdd Pensiwn Lleol.

4.6 Cynigiodd y Cadeirydd y dylid newid paragraff 26 oedd yn cyfeirio at gworwm y cyfarfod o chwe aelod i dri aelod, i gynnwys o leiaf un aelod o'r cynllun ac un cynrychiolydd y cyflogwr. Eiliwyd y cynnig hwn gyda phawb o blaid.

4.7 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi cwmpas a gofynion Cylch Gwaith y Bwrdd Pensiwn Lleol;**
**ii) argymell bod y gofynion cworwm yn cael eu newid o chwe aelod i dri aelod, i gynnwys o leiaf un aelod o'r cynllun ac un cynrychiolydd y cyflogwr; a**
**iii) chymeradwyo'r Cylch Gwaith i gael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod yn rhinwedd ei swyddogaeth fel Rheolwr y Cynllun, pan fydd y newid uchod wedi'i wneud.**

**5 AELODAETH A DYDDIADAU CYFARFODYDD AR GYFER 2025/2026**

5.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur y trefniadau aelodaeth presennol ar gyfer Bwrdd Pensiwn Lleol Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân yr Awdurdod a chadarnhaodd ddyddiadau'r cyfarfodydd ar gyfer 2025/26.

5.2 Cytunodd yr Aelodau y dylai fod rhywfaint o hyblygrwydd o ran dyddiadau cyfarfodydd, pe bai'n dod i'r amlwg ei bod yn anodd i'r aelodau fod yn bresennol ar ddyddiad penodol.

5.3 Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod cynrychiolydd Cymdeithas yr Arweinwyr Tân (FLA) wedi newid o PST Dawn Docx i PSTC Stuart Millington; fodd bynnag, pe na bai PSTC Millington yn gallu bod yn bresennol ar unrhyw adeg, byddai PST Docx yn cynrychioli aelodau'r FLA ar ei ran.

5.4 Nodwyd bod angen newid y gofynion cworwm yn unol â'r eitem flaenorol.

5.? **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi aelodaeth bresennol y Bwrdd Pensiwn Lleol;**
**ii) nodi'r newidiadau i'r gofynion cworwm o chwe aelod i dri aelod i gynnwys un cynrychiolydd y cyflogwr ac un aelod o'r cynllun, yn unol â'r eitem flaenorol;**
**iii) nodi'r dyddiadau arfaethedig ar gyfer cyfarfodydd blwyddyn ariannol 2024/25.**

**6 DIWEDDARIAD YNGHYLCH MATERION CYFREITHIOL**

6.1 Cyflwynodd Kim Jeal yr adroddiad ynghylch materion cyfreithiol a oedd yn nodi'r gofynion a'r amserlenni statudol a bennwyd yn sgil y newidiadau i ddeddfwriaeth Cynlluniau Pensiwn y Sector Cyhoeddus, ac yn fwy penodol Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân. Roedd y rhain yn cael eu galw fel arfer yn ymarferion rhwymedi pensiwn McCloud ac O'Brien (Matthews 2).

6.2 Nodwyd hefyd bod y gwaith ar y Prosiect Dangosfwrdd Pensiynau, a oedd yn cael ei gyflwyno gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), bellach yn cyflymu ac roedd Cynlluniau yn y Sector Tân wedi cael dyddiad cysylltu sef mis Hydref 2025.

6.3 Tynnodd Kim Jeal sylw at gymhlethdodau cwblhau ymarfer McCloud a phwysleisiodd ei bod yn annhebygol y byddai'n cael ei gwblhau erbyn y terfyn amser statudol, sef 31 Mawrth 2025.

6.4 Sicrhaodd y PST yr Aelodau nad dim ond Gogledd Cymru oedd yn wynebu anawsterau mewn perthynas â dyfarniad McCloud a bod y rhain yn cael eu teimlo ar draws y sector cyhoeddus.

6.5 Dywedodd PSTC MacArthur fod y mater o Ddatganiadau Gwasanaeth Rhwymedïol (RSS) yn cael ei flaenoriaethu ar sail y rhai a oedd wedi ymddeol yn sgil afiechyd, y rhai a oedd yn ymddeol ar unwaith ac yna'r rhai a oedd eisoes wedi ymddeol ond a oedd â diogeliad graddedig.

6.6 Cynigiodd y Cadeirydd y dylid uwchgyfeirio'r materion hyn i'r Awdurdod er mwyn tynnu eu sylw at y materion a wynebir.

6.7 Cynigiodd PSTC Stuart Millington y dylid cofnodi diolch ar ran aelodau'r cynllun pensiwn am yr holl waith sy'n cael ei wneud yn y cefndir mewn perthynas â dyfarniadau McCloud ac O'Brien. Eiliwyd y cynnig hwn gyda phawb o blaid.

6.8 O ran dyfarniad O'Brien, roedd ymarfer blaenoriaethu yn cael ei gynnal, yn debyg i'r un ar gyfer dyfarniad McCloud, a nodwyd bod Lloegr yn bwriadu ymestyn y terfyn amser ar gyfer y dyfarniad hwn am 12 mis arall hyd at fis Gorffennaf 2026. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ei bod yn debygol y bydden nhw'n gwneud yr un fath, er nad oedd telerau hyn yn glir eto. Mae'n debyg y byddai ymgynghoriad yn cael ei gynnal ymhen ychydig fisoedd, cyn y terfyn amser ym mis Gorffennaf 2025.

6.9 Nododd y Cadeirydd fod llawer o gymhlethdodau ynghylch dyfarniad O'Brien ac y byddai estyniad i'r terfyn amser yn cael ei groesawu.

6.10 Dywedodd PSTC MacArthur, pe bai'r terfyn amser yn symud, y gallai hyn olygu y gallai Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) ganfod ei hun mewn cyfyng-gyngor moesol gan fod ganddo gyfrifoldeb o hyd i aelodau'r cynllun i gyflawni hyn cyn gynted â phosibl. Nododd hefyd, o ran aelodau a allai fod yn gymwys i brynu'n ôl, y byddai'r rhai a oedd eisoes wedi ymddeol yn gallu gwneud hyn gan ddefnyddio eu cyfandaliad.

6.11 Teimlai'r Cadeirydd y byddai'n rhaid dibynnu'n helaeth ar feddalwedd Haywards, ond y byddai hyn hefyd yn creu ei ymholiadau ei hun a fyddai'n cymryd amser i weinyddwyr ddelio â hwy ar ben y gwaith parhaus arall.

6.12 **PENDERFYNWYD:**

i) **nodi cynnwys yr adroddiad;**
ii) **cyfleu cydnabyddiaeth y Bwrdd Pensiwn Lleol o'r gwaith caled sy'n cael ei wneud i gyflawni dyfarniadau McCloud ac O'Brien a'r anawsterau a wynebir;**
iii) **nodi nad oedd y Gwasanaeth yn gallu bodloni'r terfynau amser statudol ond ei fod yn blaenoriaethu'r rhai yr effeithir arnynt;**
iv) **sicrhau cyfathrebu parhaus â'r rhai y mae pob mater cyfreithiol yn effeithio arnynt;**
v) **sicrhau bod yr Awdurdod yn cael gwybod am y mater hwn yn rhinwedd ei swyddogaeth fel rheolwr y cynllun.**

## 7 ADRODDIAD DIWEDDARU – CYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN

7.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur adroddiad diweddaru Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân, a'i ddiben oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd Pensiwn Lleol am faterion presennol yn ymwneud â Chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân gan gynnwys aelodaeth a gwaith i fynd i'r afael â'r heriau cyfreithiol.

7.2 Nododd yr Aelodau y byddai unigolion a oedd wedi optio allan o'r cynllun yn destun ailgofrestru a oedd wedi'i amserlennu ar gyfer haf 2025.

7.3 Nododd PSTC MacArthur y cyfathrebu parhaus ag aelodau a chadarnhaodd y byddai hyn yn flaenoriaeth ar gyfer y misoedd nesaf oherwydd y terfynau amser sy'n gysylltiedig â'r heriau cyfreithiol.

7.4 **PENDERFYNWYD:**

i) **Nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 8 ADRODDIAD DIWEDDARU – GWEINYDDWR

8.1 Cyflwynodd Aled Williams adroddiad diweddaru’r Gweinyddwr a oedd rhoi diweddariad i’r Aelodau ar gynnydd nifer o brosiectau a oedd yn cael eu cynnal ar yr un pryd, ynghyd â darparu gwybodaeth am faterion perthnasol wrth weinyddu buddion y cynllun.

8.2 Nodwyd pwyntiau allweddol yr adroddiad, a gofynnwyd i'r Aelodau barhau i annog gweithwyr i gofrestru ar gyfer gwasanaeth Fy Mhensiwn Ar-lein.

8.3 Gofynnodd y Cadeirydd i ddiolch i gael ei drosglwyddo i'r tîm yng Nghronfa Bensiwn Dyfed am eu gwaith yn cynnal sefyllfa o fusnes fel arfer.

8.4 **PENDERFYNWYD:**

i) **Nodi cynnwys yr adroddiad.**

**9 Y GOFRESTR RISG**

9.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur ddiweddariad ar y Gofrestr Risg a oedd yn ceisio rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y trefniadau rheoli risg.

9.2 Nodwyd bod cyllid bellach wedi'i dderbyn i dalu am y cynnydd yng nghyfraniadau pensiwn y cyflogwr, er bod y risg chwyddiant yn parhau.

9.3 Codwyd cwestiynau am y sgôr risg ar gyfer twyll a chytunwyd y dylid ei addasu o chwech i bedwar oherwydd y rheolaethau mewnol sydd ar waith.

9.4 **PENDERFYNWYD:**

i) **Ystyried a chymeradwyo'r risgiau cyllid sy'n gysylltiedig â chynllun pensiwn y diffoddwyr tân, yn amodol ar y newid i'r risg o dwyll.**

**10 Y BWRDD CYNGHORI AR Y CYNLLUN - YMGYNGHORIAD LLC AR GYFRADDAU CYFRANIADAU GWEITHWYR**

10.1 Rhoddodd y PSTC MacArthur ddiweddariad llafar i'r Aelodau ar faterion a drafodwyd gan y Bwrdd Cynghori ar y Cynllun (SAB) ers mis Hydref.

10.2 Nodwyd bod y Bwrdd Cynghori yn ymdrin yn fras â materion tebyg i'r rhai a drafodir yn y Bwrdd Pensiwn Lleol, a bod y mater ynghylch cyfraniadau gweithwyr wedi cael ei drafod yn eithaf diweddar. Roedd Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD) wedi mynegi pryder nad oedd y targed o ran y gyfradd cyfraniadau, sef 13.2, yn cael ei gyflawni oherwydd sawl rheswm. Cynhaliwyd ymgynghoriad dros y tri mis diwethaf o ran yr hyn y gellid ei wneud i gynyddu hynny, ac aethpwyd â phapur mewn perthynas â'r ymgynghoriad hwn i'r Awdurdod ym mis Ionawr 2025.

10.3 Egwyddorion sylfaenol yr ymateb oedd y dylai'r cyfraniadau fod yn fforddiadwy, dylai cyfraddau fod yn strwythuredig a ddim yn afresymol, dylid ei ddiogelu o ran y dyfodol a dylai'r system fod yn hawdd i'w gweinyddu. At hynny, ni ddylid rhoi rheoliad ôl-weithredol ar waith. Byddai'r ymgynghoriad yn cau ar 4 Chwefror ac roedd yr ymateb wedi cael ei gyflwyno ar ran Rheolwr y Cynllun. Byddai hwn yn cael ei ddosbarthu i aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol y tu allan i'r cyfarfod.

10.4 Nodwyd bod Undeb yr Arweinwyr Tân (FLA) hefyd wedi cyflwyno ymateb, ac mae'n debygol bod Undeb y Brigadau Tân (FBU) wedi gwneud hynny hefyd.

**10.5 PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi cynnwys y diweddariad llafar.**

## 11 MATERION I'W HUWCHGYFEIRIO I SYLW'R AWDURDOD TÂN AC ACHUB

11.1 Cytunwyd y dylid gofyn i'r Awdurdod gymeradwyo'r newidiadau i ofynion cworwm y Bwrdd Pensiwn Lleol yn unol ag eitem 4.

11.2 Cydnabu'r Aelodau yr anawsterau a wynebir o ran cadw at y terfyn amser statudol mewn perthynas â mater Datganiadau Gwasanaeth Rhwymedïol (RSS), ac er cydnabod ei bod yn her genedlaethol, cytunodd y Bwrdd Pensiwn Lleol i uwchgyfeirio hyn i'r Awdurdod fel 'Rheolwr y Cynllun'.

11.3 Cydnabuwyd ymhellach y byddai'n rhaid i'r Bwrdd Pensiwn Lleol roi gwybod amdano'i hun i'r Rheoleiddiwr Pensiynau (TPR). Diolchodd yr Aelodau i bawb am eu gwaith caled a gofynnwyd i'r ATA nodi hyn.

## 12 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

12.1 Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 10 Ebrill 2025 am 09:30.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:02